# Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam: Beth ydym yn ei wneud, a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud

**Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022 - 2023**



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Crynodeb o berfformiad | 5 |
| | Cefndir | 5 |
| | Cwynion a Chanmoliaethau | 5 |
| 3. | Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau | 7 |
| | Gofalwyr Di-dâl | 7 |
| | Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam | 8 |
| | Gweithio gyda'r trydydd sector | 8 |
| | Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 |
| 4. | Gwella lles (Y Chwe Safon) | 11 |
| | Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant | 11 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 11 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 15 |
| | Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol | 17 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 17 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 21 |
| | Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed | 23 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 23 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 25 |
| | Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas | 28 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 28 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 31 |
| | Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach | 33 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 33 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 36 |
| | Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion | 37 |
| | Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 37 |
| | Gofal Cymdeithasol i Blant | 40 |




Ref: WCBC/ER690/04102023

5. Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion 43

A. Datblygu ein gweithlu 43

B. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodol 44

C. Arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd gwleidyddol 45

Gweithio mewn Partneriaeth 45

Trefniadau diogelu 46

6. Rhagor o Wybodaeth 47

Adroddiadau a dogfennau'r Cyngor 48

7. Atodiad 1: Fframwaith Mesur Perfformiad 49

Safon 1 49

Safon 2 50

Safon 3 51

Safon 4 52

Safon 5 53

Safon 6 54

# 1. Cyflwyniad

Mae 2022-23, yn debyg i'r holl flynyddoedd eraill wedi bod yn un o newid a datblygiad sylweddol. Fel adran mae gan Ofal Cymdeithasol lawer i'w ddathlu ac eto rydym oll yn ymwybodol fod blynyddoedd heriol o'n blaenau.

Mae'r adroddiad hwn yn eich darparu gyda throsolwg o'n cyflawniadau yn erbyn y 6 safon rydym yn mesur ein cyflawniadau yn eu herbyn. Ar y cyd mae meysydd lle rydym yn gweld graddfa sylweddol o falchder yn ein cyflawniad i gefnogi pobl.

Yn y gwasanaethau plant rydym wedi cryfhau sail ein harferion gyda chynnydd yn cael ei wneud i sefydlu Polisi Trothwy, ac Offeryn Sgrinio Rhai sydd ar Goll, yn cael eu Camfanteisio neu eu Masnachu a Phrotocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu. Hefyd yn bwysig, mae ein Strategaeth Atal a Chymorth Cynnar wedi cael ei mabwysiadu'n ffurfiol. Rydym hefyd wedi cryfhau ein cynnig i blant a theuluoedd mewn nifer o feysydd gan gryfhau dewisiadau llety a chefnogaeth ar gyfer plant sy'n gadael gofal, cryfhau ein gwaith cyn geni gyda rhieni a diogelwch ac ymgysylltiad gyda phlant yn ganolog i'n gwaith.

Yn y Gwasanaethai Oedolion mae gwelliannau cadarnhaol wedi digwydd o ran yr ystod o gefnogaeth gyda gofalwyr micro yn helpu i gefnogi cynnig mwy amrywiol o ofal. Rydym hefyd wedi buddsoddi'n ddoeth mewn rolau newydd er mwyn cryfhau cydnabyddiaeth gofalwyr yn ein cymdeithas a sicrhau ein bod yn annog ni oll i heneiddio'n dda. Mae'r Ganolfan Les yn Adeiladau'r Goron wedi agor ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i aelodau o'r cyhoedd.

Mae ein nodau ar gyfer 2023/24 yn uchelgeisiol. Yn y Gwasanaethau Oedolion rydym wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith perfformiad cryf i fesur ein cyflawniadau. Yn ogystal gobeithiwn gryfhau ein Un Pwynt Mynediad er mwyn gwella ein canolbwynt ar les a chanlyniadau cadarnhaol.

Yn y Gwasanaethau Plant dymunwn wella'r profiad i blant mewn gofal drwy hyrwyddo gwaith Siwrnai Bywyd, er mwyn gwella hunaniaeth pob plentyn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Offeryn Amhariad i gefnogi'r plant hynny sydd mewn risg o fynd ar goll a/neu blant sy'n profi cam-fanteisio.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu a darparu'r cymorth sydd ei angen i gryfhau ein cymunedau a helpu i ddarparu'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl.

**Alwyn Jones**

**Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol**

## 2. Crynodeb o berfformiad

### Cefndir

Mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru gyhoeddi adroddiad am ei Wasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Dyma ein hadroddiad ni.

Y nod yw gwerthuso pa mor dda y darparwyd ein gwasanaethau, a thynnu sylw at unrhyw welliannau sy'n ofynnol.

Hefyd mae'n gyfle i esbonio sut rydym yn bwriadu helpu pobl dros y flwyddyn i ddod – pobl y mae arnynt angen cymorth a chefnogaeth, a gofalwyr di-dâl a allai fod angen ein cymorth ni.

Wrth i chi ddarllen trwy'r tudalennau hyn fe wnewch chi sylwi ein bod ni'n sôn am chwe 'safon ansawdd'. Mae'r rhain yn rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (byddwn yn cyfeirio ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen).

Mae fformat yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf, a'r angen i fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o ran y chwe safon.

Mae'n bwydo i'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru – cynorthwyo i greu gwlad yr ydym i gyd yn dymuno byw ynddi. Nawr ac yn y dyfodol.

Yn olaf, fe sylwch ein bod yn cyfeirio at 'ganlyniadau' yn aml. Mae hyn oherwydd bod gymaint o'n gwaith yn canolbwyntio ar helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyrraedd.

### Cwynion a Chanmoliaethau

Mae cwynion yn derbyn sylw yn unol â gweithdrefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol statudol a reolir gan dîm cwynion canolog yn y cyngor. Mae gan y tîm berthynas weithio rhagorol gydag uwch reolwyr ar draws yr adran ac yn cysylltu'n rheolaidd i fynd i'r afael â chwynion.

Mae adroddiad llawn ar gwynion a chanmoliaeth yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu perthnasol yn flynyddol ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod y cwynion a dderbynnir yn cael eu craffu'n briodol gan aelodau ac yn cynnig tryloywder i'r cyhoedd (wrth sicrhau bod manylion achwynydd yn parhau'n gwbl gyfrinachol).

Yn ystod 2022-23 roedd y nifer o gwynion a dderbyniwyd wedi cynyddu, gan dderbyn 56 o'i gymharu â 40 yn ystod 2021-22.

Cafodd chwe cwyn eu huwchgyfeirio i Gam 2, ac angen Ymchwiliad Annibynnol. Mae hyn yn lleihad bychan o 7 ymchwiliad yn 2021-22.

Derbyniwyd nifer o ganmoliaethau yn ystod 2022-23, gan amlygu gwerthfawrogiad oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd am y gefnogaeth a ddarparwyd.

## Enghraifft o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd gan yr Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion

"Hoffwn roi gwybod i chi fod X, sydd wedi bod yn ymweld â fy nhad ar rai achlysuron yr wythnos hon wedi bod yn wych. Mae hi'n gyfeillgar, gofalgar ac yn broffesiynol. Mae bob amser yn hapus ac yn gwenu, mae hi'n sgwrsio gyda mam a dad wrth weithio, mae hi'n sicrhau fod y golch yn dod lawr fel nad oes angen i mam ei gario i lawr y grisiau (gwerthfawrogir yr holl bethau bach). Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i X, mae hi'n chwa o awyr iach ac yn glod i'r proffesiwn gofal."

## Enghraifft o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd gan yr Adran Gofal Cymdeithasol i Blant

"Diolch am bopeth rydych wedi gwneud i mi dros y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n ddiolchgar iawn ac yn gwerthfawrogi eich holl gymorth a chyngor. Rwy'n gwybod nad ydw i wedi bod yn hawdd ar adegau, ond rydych wedi mynd tu hwnt i'r disgwyliadau i mi! Diolch, rydych wir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc, rwyf wedi bod yn lwcus o'ch cael fel PA".

## 3. Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau

Mae gwrando ar y bobl yr ydym yn eu cefnogi yn hanfodol. Mae'n ymwneud â sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn datblygu ein dull ar gyfer 'cyd-gynhyrchu' - ble mae pobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd i ddatblygu ein gwasanaethau yn ystod pob cam.

#### Esbonio'r Jargon - 'Cyd-Gynhyrchu'

> Mae 'Cyd-Gynhyrchu' yn cyfeirio at waith a wnaed gyda chyfraniad llawn a chyfartal defnyddwyr y gwasanaethau. Mewn geiriau eraill, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael dweud eu dweud am benderfyniadau a newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw.

### Gofalwyr Di-dâl

Mewn ymateb i'n hymgynghoriad gofalwyr di-dâl, fe luniom adroddiad Dywedoch chi, Byddwn ni'n Gwneud. Mae'r adroddiad yn nodi sut fyddwn ni'n gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl wrth symud ymlaen.

Mae rhai o'r ymatebion o'r adroddiad wedi'u nodi isod;

- Dywedodd 66 o ofalwyr di-dâl wrthym nad oeddent wedi cael cynnig Asesiad o Anghenion Gofalwyr;

  Rydym yn adnabod pwysigrwydd gofalwyr di-dâl yn cael Asesiad o Anghenion Gofalwyr i ganfod eu hanghenion cymorth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda GOGDdC, rydym yn eu hariannu i ddarparu gwasanaethau gofalwyr di-dâl ar draws Wrecsam, i sicrhau y cynigir Asesiad o Anghenion Gofalwyr ansoddol i bob gofalwr di-dâl ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cael eu hadnabod fel gofalwr di-dâl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda GOGDdC i wella hunan-adnabyddiaeth fel gofalwr di-dâl , o gofrestru fel gofalwr di-dâl, a chael cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr

- Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym nad oeddent wedi derbyn y cynnig o Asesiad o Anghenion Gofalwyr;

  Byddwn yn sicrhau fod bob gofalwr di-dâl yn deall manteision cael Asesiad o Anghenion Gofalwyr, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i wella ansawdd eu profiad gofalu

- Bu i nifer o ofalwyr di-dâl ddweud wrthym na wrandawyd ar eu barn wrth drafod anghenion y sawl a ofalant amdanynt;

  Rydym yn cydnabod pwysigrwydd teimlo fod pobl yn gwrando arnoch, a byddwn yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i ymgysylltu'n well gyda gofalwyr di-dâl trwy weithdai a fforymau gofalwyr di-dâl. Byddwn hefyd yn sicrhau fod ein gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant cadarn er mwyn i ofalwyr di-dâl deimlo bod eu barn yn cael ei ystyried wrth drafod anghenion yr unigolyn a ofalant amdanynt.

## Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam

Mae'r grŵp SWS (Safonau Gwasanaethau Wrecsam) yn cael ei redeg gan yr adran Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Maent yn ein cefnogi ni yn y rôl gwirfoddoli hon. Mae'r SWS yn edrych ar wahanol ffyrdd i wella'r cymorth a gynigir gan CBSW i bobl gydag anableddau. Gallent edrych ar wybodaeth hygyrch a hawdd ei ddarllen. Maent yn edrych ar beth yw Lle Diogel ac yn hyrwyddo a gweithio ar y Cynllun Lleoedd Diogel. Maent wedi gwneud fideos ar gyfer hyfforddi ac yn gallu cefnogi'r Tîm PCP i ddarparu hyfforddiant. Maent yn rhedeg Fy Staff Fy Llais sy'n wasanaeth recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer y Cyngor, sydd â phobl gyda phrofiad o gefnogi ar baneli cyfweliad ar gyfer gweithwyr cefnogi a rheolwyr ac ati.

Dyma beth oedd gan rai pobl i'w ddweud am weithio gyda SWS:

- “Mae SWS yn rhoi cyfleoedd i newid y cymorth yn Wrecsam er gwell. Rydym yn gweithio'n galed i fod yn rym cadarnhaol ar gyfer newid da!”
- "Mae gan SWS nifer o grwpiau rydym wedi eu dechrau. Lleoedd Diogel, Fy Staff Fy Llais, y Canolbwynt Cyfeillgarwch a galw heibio technoleg. Maent oll yn cael eu cefnogi gan yr adran PCP yn CBSW”.
- Fe wnaeth y SWS a'r Canolbwynt Cyfeillgarwch fy helpu i setlo'n ôl i fywyd ar ôl Covid…. Rydym yn trefnu ein sesiynau bowlio deg a chinio allan ein hunain. Rydym wedi cwrdd i wylio Top Gun ac wedi cael noson pitsa. Rydym bellach yn helpu swyddogion PCP i drefnu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl gydag anghenion cefnogi sydd methu mynd allan heb gefnogaeth. Fe drefnom noson tân gwyllt gyda sŵn isel yng nghanol Tachwedd fel nad oedd yn atal pobl rhag mynd i'w harddangosfa tân gwyllt lleol. Roedd disgo distaw yn hwn hefyd. Rydym yn gobeithio trefnu mwy o ddigwyddiadau fel hyn. Rydym yn rhan o'r ymgyrch ‘Stay Up Late'! Gan helpu pobl gyda chefnogaeth 24 awr i fynd allan gyda'r nos!”

## Gweithio gyda'r trydydd sector

Rydym yn mwynhau perthynas weithio agos gyda Chyngor Gwirfoddol y Sir, sef Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam.

Trwy ddialog parhaus ac agored gyda Phrif Swyddog newydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Dawn Roberts-McCabe, rydym wedi gallu cydweithio ar amrywiaeth o brosiectau arloesol gan gynnwys treial i sefydlu dwy swydd yng Nghyngor Gwirfoddol y Sir i alluogi gwell mynediad i'r gymuned.

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn parhau i gynrychioli'r gymuned a'r sector gwirfoddol fel partner yn natblygiad a darpariaeth y Ganolfan Les yng nghanol tref Wrecsam ac yn bartner allweddol wrth wneud penderfyniadau a dyrannu Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Wrecsam, gan gefnogi dulliau integreiddio gwell ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn canolbwyntio ar atal a lles yn gyntaf.

Trwy Gyllid Grant Llywodraeth Cymru sydd wedi ei gaffael gan ein tîm, mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam wedi recriwtio Swyddog Canolfan Les i agor Canolfan Les yng Ngwersyllt. Mae'r Ganolfan, wedi'i gyd-leoli yng Nghanolfan Adnoddau Gwersyllt, ar agor tri diwrnod yr wythnos gan gynnig ystod o wasanaethau o gyngor i leihau costau byw i hyrwyddo gwell iechyd meddwl a lles personol. Mae'r holl weithgareddau yn y Ganolfan wedi'u cyd-gynhyrchu gydag aelodau o'r gymuned sy'n elwa ohono.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam eleni i wella mynediad i arian Grant Llywodraeth Cymru. Hwylusodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam ddyfarniad grantiau er mwyn mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd yn y gymuned. Roedd gallu Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i gyrraedd y gymuned ehangach yn golygu fod y grantiau wedi ariannu ystod o anghenion o therapi ceffylau i siediau dynion. Roedd derbynnydd mwyaf yr arian yn canolbwyntio ar gynorthwyo adeilad cymunedol i allu cynnig gwasanaethau i drigolion o bob oed; o rieni i grwpiau babanod i grŵp ciniawa ar gyfer y rhai dros 50 oed.

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant. Yn ystod ein harolwg diweddar, canfu'r adroddiad fod meysydd angen gwella yn y gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Cafodd Camau 1 a 2 ein cynllun gwella eu cwblhau yn llwyddiannus yn 2021 ac yn ystod Cam 3 (Mehefin 2022), ymwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â Wrecsam i adolygu perfformiad yr awdurdod lleol i ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth. Roedd yr adroddiad yn cydnabod yr heriau a brofwyd ac yn cydnabod y cynnydd oedd wedi cael ei wneud gan arwain at ddatblygiadau mewn ymarfer a gwell canlyniadau ar gyfer plant.

Mae crynodeb o'r meysydd sydd angen gwella yng Ngofal Cymdeithasol i Oedolion wedi'i nodi isod;

## Egwyddor: Pobl

Gwelsant enghreifftiau cyson o bobl a gofalwyr di-dâl yn profi oedi sylweddol ac annerbyniol wrth wneud cais am gymorth.

## Egwyddor: Atal

Roedd yr amser mae'n ei gymryd i asesiadau therapi galwedigaethol ddigwydd a darparu cymorth yn faes a nodwyd oedd angen gwella. Er gwaethaf enghreifftiau o ymyraethau Therapi Galwedigaethol effeithiol, mae darparu asesiadau ac addasiadau weithiau'n cael ei oedi'n sylweddol ac nid yw'n mynd i'r afael â'r angen ehangach i gymryd camau yn gynharach er mwyn atal dirywiad pellach.

## Egwyddor: Lles

Mae angen mwy o waith i sicrhau'r pum elfen allweddol o asesiadau; urddas a pharch, trugaredd, i gael eu cynnwys, gofal a chymorth ymatebol a lles, yn cael eu hystyried, fod canlyniadau pobl yn cael eu cofnodi, a bod cymhwysedd yn cael ei drin yn unol â chanllawiau statudol.

## Egwyddor: Partneriaeth

Mae tystiolaeth o berthnasau gweithio proffesiynol yn datblygu gyda phobl a phartneriaid, wedi'i adeiladu ar gydweithredu a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig.

Fodd bynnag, mae effaith y rhestrau aros yn rhoi her ychwanegol ac yn effeithio'n negyddol ar y gallu i adeiladu perthnasau llawn ymddiriedaeth yn sgil pwysau a galw cynyddol.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, byddwch yn darllen am y ffordd rydym yn ymateb i'r canfyddiadau ar draws Gofal Cymdeithasol.

## 4. Gwella lles (Y Chwe Safon)

Dyma'r chwe safon y soniwyd amdanyn nhw ynghynt.

Mae llawer o wybodaeth yma, felly rydym ni wedi'u rhannu'n ddwy adran i adlewyrchu'r ddwy adran o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol- Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant.

### Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant

Mae hyn yn swnio'n gymhleth, ond mae'n syml mewn gwirionedd.

Rydym ni'n sôn am helpu pobl i wella eu sefyllfa mewn modd sy'n ystyried sut maen nhw'n teimlo, a'r hyn y mae arnynt ei eisiau..

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Datblygu Taliadau Uniongyrchol a Micro gomisiynu ymhellach.
- Darparu Cynllun Gweithredu lleol i fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaeth fel yr adroddwyd yn adroddiad Datblygu'r Farchnad Ranbarthol.
- Defnyddio Cyfalaf Llywodraeth Cymru, datblygu cynllun ar gyfer darparu Gofal Canolradd yn y tymor canolig a hirdymor.
- Darparu Arweinydd Gofalwyr Di-Dâl i gefnogi i oresgyn heriau a wynebir gan ofalwyr di-dâl.

#### Dyma beth wnaethom ni

##### Datblygu Taliadau Uniongyrchol a Micro gomisiynu ymhellach

Er mwyn gwella gwasanaethau i bobl dderbyn taliad uniongyrchol, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddod a chymorth taliad uniongyrchol yn ôl yn fewnol yn hytrach na defnyddio darparwr allanol. Deallwn y gall daliadau uniongyrchol ddarparu gwell dewis a rheolaeth i ddinasyddion o ran sut maent yn derbyn eu gofal wedi'i asesu. Felly, rydym wedi gweithio i gynyddu canran y rhai sy'n defnyddio Taliad Uniongyrchol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf 23%.

Er mwyn ein cefnogi i ddatblygu mentrau neu fusnesau gofal cymdeithasol bach, rydym yn parhau i weithio gyda Chatalyddion Cymunedol.

Maent yn helpu pobl a chymunedau ar draws y sir i ddefnyddio eu dawn i ddechrau a rhedeg mentrau bychain a busnesau cymunedol sy'n cefnogi ac yn gofalu am bobl leol eraill; gelwir y bobl hyn yn gatalyddion cymunedol yn lleol ond mae ganddynt oll eu henw busnes eu hunain hefyd.

Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Integreiddio rhanbarthol, mae Catalyddion Cymunedol yn canfod bylchau yn y gwasanaethau presennol ac yn recriwtio pobl leol i ddatblygu mentrau bychain er mwyn eu llenwi, gan helpu i ofalu am a chefnogi dinasyddion Wrecsam.

Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu'n dda gyda 70 menter wedi cwblhau'r safonau 'ei wneud yn iawn'. Mae pob menter yn llawn o ran pecynnau gofal, gyda dinasyddion yn cael mynediad i daliadau uniongyrchol i ariannu gofal fel hyn. Mae'r model hwn o ofal a chymorth yn gallu cynnig datrysiad amgen, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Esbonio'r Jargon - 'Micro Gomisiynu'

> Mae micro gomisiynu yn golygu chwilio am ofal ar lefel unigol gan sefydliadau bach annibynnol neu drydydd sector yn aml neu unig fasnachwr
>
> Prosiect Catalyddion Cymunedol: Wrecsam

### Darparu Cynllun Gweithredu lleol i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaeth

Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ar draws Gogledd Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ym mis Tachwedd y llynedd.

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) yn ymateb i ganfyddiadau Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022 a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.

Rydym yn adeiladu ar ganfyddiadau o'r ASM a'r Cynllun Rhanbarthol er mwyn eu cynnwys yn ein cynlluniau lleol ac rydym eisoes yn gweithio ar rai o'r camau a amlygwyd o fewn yr adroddiad hwn. Bydd diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wneir ar draws y rhanbarth.

### Datblygu cynllun ar gyfer darparu Gofal Canolraddol

Mae Cronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen newydd gan Lywodraeth Cymru i ddisodli'r Gronfa Gofal Integredig, mae'n cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu 50 canolfan iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn ail-gydbwyso'r farchnad ofal.

Er mwyn cefnogi hyn mae'r awdurdod wedi comisiynu cwmni arbenigol allanol North of England Commissioning Service (NEC) i gyflawni astudiaeth hyfywedd dros gyfnod o 6 mis, a fydd yn cynnwys ymgynghoriad helaeth mewn cydweithrediad ag Iechyd (BIPBC) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, i sefydlu anghenion a bylchau mewn darpariaeth, o fewn y Fwrdeistref Sirol, er mwyn llywio cynlluniau comisiynu yn y dyfodol:

- I gynnwys argymhellion penodol ar sut ddylai newidiadau gwella gwasanaeth edrych a pha fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen a lle mae ei angen er mwyn gwneud y defnydd gorau o asedau cymunedol presennol.
- I gynnwys argymhelliad penodol o ran pa ddarpariaeth Gofal Lleol/Canolraddol amgen a/neu ychwanegol sydd ei angen a ble i gynnwys graddfa a chwmpas cyfleusterau o'r fath yn Wrecsam.
- Bydd yr astudiaeth a'r adroddiad terfynol yn blaenoriaethu ardal Cefn Mawr; i gynnwys cwmpas ar gyfer datblygu canolfan integredig i gynnwys cyfleuster gofal sylfaenol yn yr ardal.
- Ystyriaeth ar gyfer ailfodelu Gwasanaethau Plant yn unol ag egwyddorion cydleoli Cronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso ac integreiddio gwasanaethau o fewn yr ardal leol.

### Darparu Arweinydd Gofalwyr Di-Dâl

Fe lansiom ymgyrch recriwtio ar gyfer y rôl hon ac mae Swyddog Datblygu Gofalwyr Di-Dâl bellach wedi dechrau yn y swydd. Ariennir y swydd hon drwy Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac mae'n cefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed. Nod y swydd yw darparu adnodd dynodedig i roi gwell gwasanaeth yn y maes.

Bydd y gwaith yn cynnwys:

- datblygu gwell gwasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu â gofalwyr di-dâl,
- cyfnod ymgynghori helaeth er mwyn helpu i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio,
- gweithio gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau fod ganddynt bolisi gofalwyr di-dâl,
- Gwella cyfathrebu a datblygu strategaeth gyfathrebu gyda darparwyr gwasanaeth

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Gwerthuso effeithiolrwydd ‘micro-gomisiynu'
- Gweithredu Fframwaith Perfformiad i fesur cyflawniadau yn y Gwasanaethau Oedolion. Adolygu, ail-ddylunio a gweithredu proses newydd i archwilio ansawdd y gwasanaethau.
- Datblygu ein strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer Gofal Cymdeithasol ymhellach
- Recriwtio a chyflogi Therapydd Galwedigaethol iechyd meddwl a lles arbenigol i fynd i'r afael â'n rhestr aros bresennol

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Lansio Polisi Trothwy Gwasanaethau Plant Wrecsam yn ffurfiol i holl bartneriaid a sefydliadau allanol.
- Parhau i ymgysylltu gydag AGC a gwneud cynnydd gyda'n cynllun gwella gan sicrhau fod cynlluniau mewn lle i gynnal lefel y newid a gyflawnwyd.
- Cytuno a mabwysiadu dull rhanbarthol ar gyfer yr adnoddau sgrinio a chynlluniau diogelwch a ddefnyddir ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll, cam-fanteisio arnynt yn rhywiol ac sy'n cael eu masnachu.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Polisi Trothwy Gwasanaethau Plant Wrecsam

Lansiodd Gofal Cymdeithasol i Blant y Polisi Trothwy Gwasanaethau Plant ynghyd â Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar drwy ddigwyddiad lansio ar-lein a fynychwyd gan aelodau o'r awdurdod lleol, Addysg, Tai, Cyfiawnder Ieuenctid, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ein partneriaid aml-asiantaeth a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol.

Cafodd y Polisi Trothwy ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'n partneriaid aml-asiantaeth ac roedd y digwyddiad lansio yn arddangos y canllawiau sy'n cefnogi holl asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, gan ddisgrifio'r amgylchiadau lle dylent atgyfeirio plant a'u teuluoedd ar gyfer cefnogaeth ar draws y sbectrwm anghenion.

#### Cynnydd gyda'r Cynllun Gwella ac ymgysylltiad gydag AGC

Yn Hydref 2019, dechreuodd Cyngor Wrecsam ar raglen gwella carlam ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Blant. Sefydlwyd Bwrdd Gwelliannau Carlam yn Hydref 2019 a datblygwyd cynllun gweithredu gwelliannau carlam gydag amcanion allweddol, i ysgogi'r gwelliannau ar gyflymdra.

Er mwyn cyflawni'r 6 amcan hyn, aethpwyd at y siwrnai gwella carlam fel siwrnai 3 cham.

- Cam 1 - sicrhau fod camau gweithredu uniongyrchol wedi digwydd er mwyn sefydlogi darpariaeth y gwasanaeth;
- Cam 2 - sefydlwyd seiliau cryf er mwyn adeiladu ar y gwelliannau; a
- Cam 3 - nodwyd camau gweithredu tymor canolig a hirdymor er mwyn sefydlu newid cynaliadwy a gwella gwasanaeth.

Ym Medi 2022, cytunodd Bwrdd Gweithredol y Cyngor i ehangu cwmpas y Bwrdd Gwelliannau Carlam er mwyn cynnwys meysydd gwella a nodwyd o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, gan ffurfio Bwrdd Gwelliannau Gofal Cymdeithasol ar y Cyd, gyda'r cyfarfod cyntaf yn Nhachwedd 2022.

Mae'r Bwrdd Gwelliannau Gofal Cymdeithasol newydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o fewn Gofal Cymdeithasol i Blant er mwyn cyflawni'r gwelliannau gofynnol mewn ymarfer yng Ngofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant.

### Mabwysiadu dull rhanbarthol ar gyfer offer sgrinio ar gyfer pobl ifanc sy'n profi cam-fanteisio neu fasnachu

Roedd cyhoeddi Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu ym Mai 2022 yn ganlyniad i ymdrechion ar draws Gofal Cymdeithasol, Tai, Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i greu protocol sy'n darparu Adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â chanllawiau lleol clir ar y broses mewn perthynas â phlant ac oedolion sydd ar goll, yn cael eu cam-fanteisio neu eu masnachu ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd digwyddiad lansio cyhoeddus yn Ionawr 2023, gydag aelodau o'r awdurdod lleol, addysg, tai a chynrychiolwyr o'n sectorau aml-asiantaeth ac atal yn bresennol.

Roedd datblygiad y Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yn cyd-fynd â'r gwaith a gyflawnwyd gan Grŵp Tasg a Gorffen Wrecsam a oedd yn gyfrifol am greu offeryn sgrinio Ar Goll, Camfanteisio a Masnachu. Cwblhawyd y gwaith yn llwyddiannus ac mae'r Adran wedi bod yn y cam peilota gan ddefnyddio offeryn sgrinio cyfun, wrth i ni barhau i ymgysylltu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ar ddatblygiad offeryn sgrinio rhanbarthol a chynlluniau diogelwch cytunedig.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Datblygu proses drosglwyddo gadarn ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Ofal Cymdeithasol i Oedolion
- Sefydlu'r Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yn llawn a pharhau i ymgysylltu gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol, gan barhau i ymgysylltu â mabwysiadu'r offer sgrinio a chynlluniau diogelwch
- Adolygiad llawn o'r ddogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

## Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol

Mae hyn yn golygu cynorthwyo pobl i ofalu am eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Lansio a pharhau i ddatblygu cyd-gynhyrchiad o Ganolbwynt Lles Wrecsam mewn partneriaeth gyda BIPBC ac AVOW i ddarparu gweithgaredd atal a lles iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned (ar draws pob oed)
- Darparu rhaglen o brosiectau gofal a chymorth integredig wedi'u cyd-gynhyrchu, gan ddefnyddio Cronfa Buddsoddi Refeniw Gogledd Cymru sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion.

#### Dyma beth wnaethom ni

Lansio Hwb Lles Wrecsam

Mae partneriaeth Grŵp Llywio BIPBC (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), AVOW (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a CBSW (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) wedi cydweithio gyda dinasyddion a grwpiau cymunedol i recriwtio'r Tîm Hwb Lles a lansiwyd y cyfleuster yn llwyddiannus ar 5 Hydref 2022. Mae'n cynnig ystod o wybodaeth atal a lles, cyngor a chymorth i ddinasyddion o bob oed.

Mae'r Tîm Hwb Lles yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ac iechyd er mwyn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer y gymuned, a chyngor a chymorth ar gyfer dinasyddion i gael mynediad at wasanaethau o fewn eu hardaloedd lleol a all eu cynorthwyo nhw gyda chefnogaeth neu gymorth ymarferol i fyw'n dda.

Mae'r Hwb yn darparu cyrsiau, cyfarfodydd, sesiynau grŵp a gwasanaethau galw heibio ar gyfer pob oed yn ddyddiol. Mae gofodau gweithgareddau agored, Ystafell Synhwyraidd, Ystafelloedd Newid, ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd cynadledda y gellir eu llogi, Ystafell Driniaeth (ar gyfer clinigau iechyd), ceginau hygyrch ac yn fuan bydd Caffi a fydd yn gwbl hygyrch i bob oed.

- **Astudiaeth Achos gan Ddefnyddiwr yr Hwb, Aelod o'r Cyhoedd, 'Suzzane'**
  ‘Daeth 'Suzzane' i'r hwb am y tro cyntaf er mwyn mynychu bore coffi yn ystod wythnos gofalwyr. Mwynhaodd yn fawr ac roedd hi wedi rhyfeddu ar yr hyn oedd ar gael yn yr hwb. Roedd hi eisiau ymuno â mwy o grwpiau a threulio mwy o amser gyda phobl gan ei bod yn teimlo'n unig ar ôl i'w merch farw.

Mae 'Suzzane' bellach yn dod yn rheolaidd i'r hwb gan fynychu nifer o sesiynau gan gynnwys Boccia (math o fowlio mewn cadair), Grŵp Llai o Straen, Aerobeg Cadair a Bwyta'n Ddoeth am Oes. Mae'r sesiynau hyn wedi ei helpu'n fawr.

Mae 'Suzzane' hefyd yn dod bob wythnos i'r bore coffi dros 50 oed ac i weld beth sy'n newydd yn yr hwb. Mae'n dweud ei bod mor ddiolchgar o fod wedi darganfod yr hwb lles a'r staff cyfeillgar a defnyddiol.

Enghreifftiau o adborth eraill a dderbyniwyd;

- **BIPBC**

  "Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael taith o amgylch Hwb Lles Wrecsam pan es i gyfarfod diweddar yn un o'r ystafelloedd cymunedol. Mae'r adeilad yn edrych y wych, mae'n groesawus iawn ac wedi'i leoli'n gyfleus yng nghanol Wrecsam gyda chysylltiadau cludiant da ac yn hawdd cyrraedd ato ar droed. Mae'r Hwb hefyd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

  Mae'r 'stafelloedd sydd ar gael i'w hurio'n edrych yn grêt ac rydym yn awyddus iawn i redeg ein Rhaglen Gwella Iechyd oddi yno gan fod yno gegin ar gyfer ein Rhaglen Coginio a lle ar gyfer dosbarthiadau ffitrwydd yn ogystal â byrddau a chadeiriau ar gyfer sesiynau addysgol. Gallwn weld ein hunain yn gwneud defnydd da o'r cyfleuster anhygoel hwn yr ydym mor ffodus i'w gael yn Wrecsam ac rydym yn argymell bod eraill yn dod i weld beth y gallai ei gynnig ar gyfer gwasanaethau eu grŵp nhw."

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)**

  Mae partneriaeth AVOW yn yr Hwb Lles wedi bod yn llwyddiant ysgubol o fewn y Trydydd Sector, gan roi canolbwynt ar gyfer ystod o sefydliadau trydydd sector, partneriaid statudol a'r gymuned a grwpiau i ryngweithio ac i gwrdd ag aelodau o'r cyhoedd, sy'n elwa'r sefydliadau a'r unigolion. Mae gweithlu croesawgar ac asedau megis toiledau a mannau newid yn rhoi ffocws ar y rhai sydd angen gwasanaethau mwy hygyrch yn Wrecsam.

  Gwasanaethau - mae sesiynau ymwybyddiaeth, hyfforddiant, gweithgareddau ataliol a grwpiau cymunedol yn aml yn cael eu cyd-gynhyrchu gan holl asiantaethau ac yn llwyddo i gynnig gwasanaethau ategol er mwyn hybu cyfranogiad mewn gwasanaethau Iechyd a Statudol. Bydd ychwanegu caffi yn gwella'r atyniad ac yn dod â mwy o bobl i'r Hwb, gan ei wneud yn fwy o ased i'r gymuned ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Hwb.

- **Ffrindiau Teulu**

  "Roedd y teulu rwy'n ei gefnogi wrth eu boddau gyda'u hamser yn yr Ystafell Synhwyraidd yn yr Hwb Lles. Daeth mam gyda'i 2 blentyn 3 oed, un gydag anghenion ychwanegol ac roedd y ddau wedi rhyfeddu gyda'r goleuadau, synau ac offer synhwyraidd.

Mae mam yn ei chael yn anodd dod o hyd i leoliad y gall y ddau blentyn fwynhau gyda'u hanghenion gwahanol, felly roedd hi'n falch bod y plant wedi mwynhau. Mae'r Ystafell Synhwyraidd yn ychwanegiad gwych i ganol tref Wrecsam ac rwy'n siŵr y bydd yn denu amrywiaeth o deuluoedd yn y dyfodol."

### Darparu rhaglen o brosiectau gofal a chymorth integredig wedi'u cyd-gynhyrchu

Mae Cronfa Integredig Rhanbarthol wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i ddisodli'r ffynonellau cyllido integredig blaenorol. Mae'r Gronfa Integredig Rhanbarthol yn rhaglen 5 mlynedd o arian cyfalaf a refeniw.

Darperir yr arian i wella'r ffordd mae iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn cydweithio i gefnogi dinasyddion. Mae'r arian yn ein galluogi ni i brofi ffyrdd gwell a newydd o gefnogi dinasyddion. Hefyd mae cyllid i wella ein cynnig llety ar gyfer byw â chymorth yn ogystal â chyfleusterau cymunedol. Rydym yn y broses o ymgynghori gyda dinasyddion i ddeall sut mae ein datblygiadau yn bodloni'r anghenion hynny y mae cyfrifoldeb arnom ni i'w cefnogi.

Mae'r dyraniad rhanbarthol ychydig o dan £32.5 miliwn o gyllid refeniw gyda dyraniad Wrecsam ychydig dros £4.5 miliwn.

Mae nifer o brosiectau mewn lle wedi'u hariannu trwy'r rhaglen hon, sy'n cefnogi dinasyddion yn uniongyrchol i barhau i fyw gartref yn eu cymunedau lleol, megis Gwasanaeth Asiantwyr Cymunedol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynorthwyo dinasyddion i gael cyngor a gwybodaeth i'w cefnogi i barhau yn annibynnol yn eu cymuned a chael mynediad at weithgareddau a gwasanaethau er mwyn lleihau unigedd ac arwahanrwydd. Hefyd mae gennym brosiectau ar y cyd gyda chydweithwyr iechyd megis cyllido'r Tîm Adnoddau Cymunedol i ddarparu cefnogaeth i ddinasyddion sydd angen gofal neu ymyrraeth therapi er mwyn eu helpu i aros adref a pheidio â chael eu hanfon i'r ysbyty. Mae'r gwasanaethau hyn yn bwysig iawn er mwyn lleihau'r nifer sy'n mynd i'r ysbyty pan all eu hanghenion gael eu diwallu o fewn y gymuned.

- **Enghraifft Astudiaeth Achos Gwasanaeth Asiantwyr Cymunedol**

  Cysylltodd merch AJ gyda mi i ddechrau ar 16 Ionawr, ac eglurodd bod ei mam yn byw gyda Dementia a theimlai ei bod angen cymorth. Nid yw merch AJ yn byw yn lleol, felly mae ei mam wedi dod yn fwy dibynnol ar gymorth dydd i ddydd gan ei chymydog yn y blynyddoedd diwethaf.

  Ymwelais ag AJ ar 17 Ionawr, gan gymryd y cyfle i ddeall ei hanghenion yn well. Roedd ei chartref yn lân a thaclus gyda'r holl offer. Roedd hi'n ei gweld yn anodd cyflawni tasgau a oedd unwaith yn syml iawn iddi, megis gwneud paned o de, felly fe helpais i hi i wneud hyn. Eglurodd ei bod yn teimlo'n eithaf unig adref, ac felly fe drafodom y mathau o weithgareddau yr hoffai gymryd rhan ynddynt a'i diddordebau a hobïau.

Ar ôl cysylltu â'i merch i drafod canlyniad fy ymweliad, cyfeiriais i hi at y Gymdeithas Alzheimer a GOGDdC. Roedd AJ am dreulio'r wythnos ganlynol yn nhŷ ei merch, felly trefnwyd ymweliad dilynol i gwrdd â nhw gyda'i gilydd cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Yn y cyfamser, roedd AJ wedi derbyn gweithiwr cymdeithasol, oedd yn cynnig cymorth o 4 ymweliad gofal y diwrnod a chytunwyd ar fynediad at ofal dydd ddwywaith yr wythnos.

Roeddwn yn parhau i ymweld ag AJ yn rheolaidd ac roeddwn hefyd yn gallu cwrdd â'i merch ar 6 Chwefror. Rhoddais wybodaeth iddynt ar weithgareddau oedd yn digwydd yn lleol y gallai AJ elwa ohonynt, a hefyd fe drafodom ac ystyriom ddewisiadau cludiant. Gwnaed trefniadau i mi fynd gyda hi i'r ganolfan ofal dydd yr wythnos ganlynol, ac fe fwynhaodd y profiad yn fawr ac mae hi wedi mynychu'r ganolfan ddwywaith yr wythnos gyda chludiant yn cael ei ddarparu.

Erbyn 16 Chwefror roedd ei phecyn gofal mewn lle gyda 4 ymweliad bob dydd. Mae AJ wedi setlo i mewn i'w harferion newydd yn dda iawn. Mae hi'n gwerthfawrogi'r cymorth mae hi'n ei dderbyn i gyflawni ei thasgau dyddiol, cymryd meddyginiaeth, helpu gyda bwyd a diod. Mae AJ yn ddynes gymdeithasol iawn, ac felly mae hi'n mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau wrth ymweld â'r ganolfan ddydd ac yn gwneud ffrindiau newydd drwy hyn. Mae hi hefyd yn mwynhau mynychu dosbarth celf wythnosol ac yn edrych ymlaen at fynychu'r sesiwn canu er lles yr ymennydd y mis nesaf.

Asiant Cymuned Rhosddu

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Sefydlu dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chryfderau
- Ail-fodelu ein Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i ganolbwyntio ymhellach ar atal a lles, gan wneud yn fawr o'r asedau cymunedol a galluogi mwy o bobl i ddiwallu eu canlyniadau lles tu allan i ddarpariaeth gwasanaethau statudol.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Ymgorffori a lansio'r Tîm Gwarcheidiaeth Arbennig a'r cynnig yn llawn.
- Datblygu a lansio polisi gwaith ac ymarfer Siwrnai Bywyd
- Datblygu gwefan Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Ymgorffori a lansio'r Tîm Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae'r Tîm Cefnogi Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'u sefydlu'n llawn o fewn yr Adran, gan ddarparu cymorth uniongyrchol i ofalwyr sy'n cyflawni rôl gwarcheidwad arbennig. Mae'r tîm yn cydweithio gyda thimoedd gwaith cymdeithasol, gan sicrhau trosglwyddiad esmwyth wrth i unigolyn ifanc adael gofal yr awdurdod lleol a pharhau yng ngofal eu gwarcheidwad arbennig, gyda chymorth cynllun gofal gwarcheidiaeth arbennig awdurdodedig cytunedig.

#### Polisi Gwaith Siwrnai Bywyd

Yn 2022, datblygodd Gofal Cymdeithasol i Blant Wrecsam ei bolisi a gweithdrefn Gwaith Siwrnai Bywyd, wedi'i gefnogi gan ddigwyddiad lansio ffurfiol. Cafwyd derbyniad da i'r digwyddiad lansio a mabwysiadu'r polisi, gyda dros 100 o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr cefnogi yn mynychu'r digwyddiad lansio wrth i ni ganolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau fod siwrnai bywyd pobl ifanc yn cael ei gofnodi mewn modd ystyrlon, cywir a hwylus.

Roedd adborth o'r digwyddiad yn cynnwys sylwadau fel a ganlyn:

"Fel gweithiwr cymdeithasol rwy'n gwybod pam fod gwaith siwrnai bywyd mor bwysig, ond mae heddiw wedi helpu i fy atgoffa i o'r gwerth mae pobl ifanc yn ei roi ar y wybodaeth hon yn ddiweddarach mewn bywyd. Roedd y siaradwyr gwadd yn dweud eu hanesion personol yn hynod o deimladwy - diolch yn fawr."

#### Datblygu gwefan Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal

Er na wnaethom gwblhau datblygiad y wefan Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal, mae Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol yr Adran wedi adfywio'r Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal, gan recriwtio aelodau newydd o staff, ail-gyflwyno pwrpas y grŵp a sefydlu cerrig milltir ar gyfer y flwyddyn i ddod sy'n cynnwys mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc mewn datblygiadau adrannol, cynnwys pobl ifanc ar baneli cyfweld ac ymgynghoriad llawn gyda'ch Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal yn natblygiad polisïau adrannol.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Ehangu cyfranogiad y Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal i gynnwys cyfranogiad mewn cyfweliadau staff ac adolygu/datblygu polisïau'r adran
- Parhau i hybu pwysigrwydd Gwaith Siwrnai Bywyd drwy gynadleddau a gweithdai blynyddol

## Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae hyn yn golygu helpu i ddiogelu pobl a allai fod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu ffurfiau eraill o niwed neu gam-fanteisio.

Parhau mae ein blaenoriaeth i ddiogelu pobl a theuluoedd a defnyddio holl adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae'r timau diogelu oedolion a diogelu plant a'r timau sicrwydd ansawdd yn parhau i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym. Mae'r dull wedi bod yn arloesol ac yn hyblyg drwy ddefnyddio cyfarfodydd ar-lein, bod yn greadigol gyda'r ffordd yr ydym yn cynnal a hwyluso cyswllt, tra'n parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch ein dinasyddion a staff.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cwblhau ein hadolygiadau o wasanaethau cefnogaeth i'r byddar, nam ar y golwg ac eiriolaeth a darparu cynllun gweithredu o welliannau gwasanaeth.
- Darparu rhaglen hyfforddiant, datblygu a chyfathrebu gyda staff, partneriaid a dinasyddion i gefnogi rhoi'r LPS ar waith.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Adolygu Gwasanaethau Cefnogaeth i'r Byddar, Nam ar y Golwg ac Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn gallu bod mewn sawl ffurf, er enghraifft eiriolaeth cyfoedion, eiriolaeth sy'n cefnogi pobl heb allu meddyliol i wneud rhai penderfyniadau, neu wasanaethau eiriolaeth sy'n cefnogi pobl mewn sefyllfaoedd diamddiffyn i wneud penderfyniadau bywyd.

Dros y flwyddyn hon, fe werthusom y gwasanaethau hyn a datblygu cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys cyflawni Gwerthusiad o Ddewisiadau ar gyfer Gwasanaethau Cefnogaeth i'r Byddar (nam ar y clyw) a Chefnogaeth gweld (nam ar y golwg) ac Eiriolaeth. Canfuom fod y gwasanaethau hyn eu hangen, yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi; ac felly rydym wedi bod yn ystyried y ffordd orau o gryfhau ac adeiladu cadernid yn y meysydd gwasanaeth pwysig hyn.

Mae'r tri chontract darparwr wedi cael eu hymestyn, er mwyn ein galluogi ni i archwilio sut y gallwn wneud hyn drwy ddarparu contract mwy gyda'n hawdurdodau cyfagos.

### Esbonio'r Jargon - 'Eiriolaeth'

> 'Eiriolaeth' yw pan mae gan unigolyn rywun arall (e.e. eiriolydd) i helpu i ofalu am eu buddion. Mae'r eiriolydd fel arfer yn weithiwr proffesiynol, perthynas, ffrind neu ddefnyddiwr gwasanaeth arall a byddant yn aml yn mynd gyda'r unigolyn i gyfarfodydd gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

### Hyfforddi, Datblygu a Chyfathrebu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Rydym wedi darparu hyfforddiant i staff ar Drefniadau Amddiffyn Rhyddid gan ddarparu hyfforddiant Gallu Meddyliol ar y cyd â'n Tîm Datblygu'r Gweithlu. Rydym hefyd wedi cael mynediad at hyfforddiant allanol er mwyn paratoi ar gyfer gweithrediad y ddeddfwriaeth hon

Ar 5 Ebrill, cyhoeddodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd gweithrediad y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019, yn cael ei oedi "tu hwnt i oed y Senedd hon" (felly yn debygol o fod tu hwnt i Hydref 2024). Hyd nes daw'r darn o ddeddfwriaeth hwn i rym, cynghorir ni i gynnal cefnogaeth ar gyfer y dinasyddion hynny sydd wedi neu sydd angen cael eu hamddifadu o'u rhyddid (mewn geiriau eraill, cyfyngu rhai o'u rhyddid) gyda diogelwch o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Ailddylunio gwasanaethau Un Pwynt Mynediad effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.
- Cyflawni ymgysylltiad gyda budd-ddeiliaid er mwyn adolygu cynaliadwyedd ein gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a lleihau rhestrau aros.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Ymgorffori'r protocol MET yn llwyr i gynnwys cynllun trawsnewid o 16 oed i fod yn oedolyn ble mae yna risgiau o gamfanteisio a masnachu.
- Comisiynu ac ymgorffori'r model risg cytûn.
- Datblygu llwybr hunanladdiad i sicrhau bod cymunedau yn cael eu cefnogi yn dilyn hunanladdiad plentyn.
- Gwerthuso apiau Meddwl Fy Hun yn y dyfodol i glywed llais y plentyn/person ifanc yn y broses amddiffyn plant.
- Symud i blatfform ar-lein ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant
- Gwella a monitro Cynnig Gweithredol Eiriolaeth.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Ymgorffori Protocol a Model Risg (MET) - Cynllun Trawsnewid

Lansiodd yr Adran y Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yn ystod digwyddiad lansio cyhoeddus ar-lein a gafodd ei fynychu gan bartneriaid aml-asiantaeth ac amryw o sefydliadau'r trydydd sector.

Roedd cyhoeddi Protocol ym Mai 2022 yn ganlyniad i ymdrechion ar draws Gofal Cymdeithasol, Tai, Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i greu protocol sy'n darparu Adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â chanllawiau lleol clir ar y broses mewn perthynas â phlant ac oedolion sydd ar goll, yn cael eu camfanteisio neu eu masnachu ar hyn o bryd.

Cafwyd presenoldeb da yn lansiad Wrecsam gyda thros 70 o fynychwyr ar draws yr holl sectorau.

I gyd-fynd â lansiad y protocol, adolygodd a datblygodd grŵp Tasg a Gorffen Wrecsam yr offeryn sgrinio Ar Goll, Camfanteisio a Masnachu ac yn ddiweddarach fe wnaethant gydweithio â grwpiau rhanbarthol i gytuno ar offeryn diwygiedig i'w ddefnyddio gyda'r bobl ifanc hynny sydd wedi mynd ar goll o gartref neu ofal.

Ar hyn o bryd mae'r offeryn cyfun yn cael ei ddefnyddio yn y cam peilota wrth i ni aros am gyflwyniad y model rhanbarthol cytunedig.

## Datblygu Llwybr Hunanladdiad

Wrth ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hunanladdiad, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol o £500,000 y flwyddyn i gefnogi dulliau cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael ag atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae ein datblygiad lleol o lwybr hunanladdiad er mwyn sicrhau fod cymunedau'n cael eu cefnogi yn dilyn hunanladdiad plentyn, yn dal i fynd rhagddo, ond bydd yn dilyn canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Recriwtio arweinwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol ledled Cymru
- Rhoi'r llwybr ôl-ymyrraeth cymorth ar ôl hunanladdiad ar waith i helpu'r rheini sydd wedi colli rhywun i hunanladdiad, yn ogystal â chynnal adolygiad llawn o gymorth a buddsoddiad wedi'i dargedu i wella hyn
- Codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod mwy o adnoddau i'w cael gan gynnwys Cymorth wrth Law Cymru a gwefan newydd ar atal hunanladdiad sydd wedi'i datblygu gan y grŵp cynghori cenedlaethol, talktometoo.wales
- Rhoi canllawiau ar hyfforddiant atal hunanladdiad i staff sy'n gweithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus
- Darparu cyllid i gefnogi rhaglenni a mentrau y profwyd eisoes eu bod yn effeithiol.

## Gwerthuso Apiau Mind of My Own

Trwy gydol 2022-23, mae Grŵp Llywio Mind of My Own wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu cynnydd a'r defnydd o'r Apiau, gan wneud gwelliannau bychain gyda chyfranogiad budd-ddeiliaid allweddol a chyflenwr y system.

Mae'r ap yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu barn a chael eu clywed mewn modd hwylus. Gallent ddefnyddio'r ap ar eu dyfais eu hunain neu gallent rannu dyfais y gweithiwr wrth gwrdd â nhw - gall elwa o welliannau pellach. Bydd ein canfyddiadau yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad graddfa lawn yn 2023/24, a bydd yn ein galluogi ni i wneud gwell penderfyniadau am ei ddefnydd.

## Cynadleddau Amddiffyn Plant - platfform ar-lein

Mae Gofal Cymdeithasol i Blant wedi llwyddo i ymgorffori'r platfform cyfarfod ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams. Yn wreiddiol fe'i defnyddiwyd trwy gydol pandemig COVID-19, ond erbyn hyn mae'r defnydd o Teams ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant ar-lein yn parhau i fod yr un mor angenrheidiol, ac mae wedi bod yn llwyddiant gyfer mwy o bartneriaid aml-asiantaeth a theuluoedd yn mynychu.

### Gwella'r Cynnig Gweithredol - Eiriolaeth

Er mwyn parhau i gefnogi gwelliannau i'r cynnig gweithredol o eiriolaeth, mae ein partneriaid, TGP Cymru yn darparu gwasanaeth ymweld preswyl a chynnig eiriolaeth i'n huned seibiant preswyl, Rhodfa Tapley. Mae eiriolwr dynodedig yn ymweld â phob lleoliad unwaith y mis, er mwyn darparu pobl ifanc gyda pherson annibynnol i drafod unrhyw bryderon neu faterion maent yn ei brofi.

Ar y cyfan, derbyniodd 65% o bobl ifanc oedd yn gymwys am eiriolaeth, y cynnig gan ymgysylltu gyda gwasanaeth TGP Cymru.

Ar 5 Ebrill 2023, cyhoeddodd Lynne Neagle, Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles, y bydd oedi o ran cyhoeddi'r canllawiau mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Roedd yr hysbysiad a dderbyniwyd yn cadarnhau fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bwriad i gamu'n ôl o gyflwyno'r Trefniadau Diogelu Rhyddid.

Roedd Wrecsam wedi cymryd camau i baratoi a nodwyd a threfnwyd Grwpiau Tasg a Gorffen ymhell o flaen llaw y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a gweithrediad y Ddeddf Galluoedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 (Deddf 2019), fodd bynnag mae'r gwaith hwn wedi dod i ben.

Hyd nes daw cyflwyniad y ddeddfwriaeth newydd, bydd yr adran yn parhau i gefnogi pobl ifanc gyda'u hanghenion eirioli o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n parhau i fod mewn grym.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Mabwysiadu a lansio polisïau Panel Channel a Chaethwasiaeth Fodern yn ffurfiol.
- Datblygu dull amhariad ar gyfer plant sydd ar goll a/neu'n destun camfanteisio
- Paratoi ar gyfer gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

## Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'r safon hwn yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan yn eu cymdeithas - eu helpu i ddysgu, rhyngweithio â phobl eraill a bod yn rhan o'u cymunedau.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Lansio ein Strategaeth Rhwng Cenedlaethau ynghyd â'n Swyddog Heneiddio'n Dda a Chronfa Grant i gefnogi Wrecsam Cyfeillgar i Oed.
- Parhau i weithio tuag at Gyngor Wrecsam yn dod yn awdurdod lleol cyfeillgar i awtistiaeth.

#### Dyma beth wnaethom ni

Lansio Strategaeth Rhwng Cenedlaethau i Gefnogi Wrecsam Cyfeillgar i Oed

Dysgu rhwng cenedlaethau yw'r ffordd y gall pobl o bob oed ddysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd. Gall fod yn rhan bwysig o Ddysgu Gydol Oes, lle mae cenedlaethau yn cydweithio er mwyn ennill sgiliau, gwerthoedd a gwybodaeth i feithrin perthnasau rhwng y gwahanol genedlaethau, nid yr hen a'r ifanc yn unig, ond rhwng pobl ifanc ac oedolion.

Yn Wrecsam rydym yn cydnabod fod gan bobl nifer o sgiliau sy'n werthfawr i bobl eraill ac mae Ymarfer Rhwng Cenedlaethau yn ffordd ragorol o ddatrys y materion a wynebir gan y ddwy genhedlaeth.

Pam fod Cyngor Wrecsam angen Strategaeth Rhwng Cenedlaethau?

Mae rhagolygon poblogaeth yn datgan y bydd cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Yn yr ystod oedran 85+, mae nifer o bobl yn adrodd eu bod yn unig ac yn profi arwahanrwydd oddi wrth eraill a'r gymuned maent yn byw ynddi, felly rydym angen gweithredu er mwyn atal hyn rhag cynyddu ymhellach.

Mae gan Ymarfer Rhwng Cenedlaethau'r gallu i leihau unigedd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn, ac adeiladu ar gryfderau pobl hŷn a phobl ifanc yn dod ynghyd. Mae hyn eisoes wedi cael ei bwysleisio ar nifer o achlysuron. Mae ganddo'r gallu i dynnu rhwystrau, adeiladu ar gymunedau cydlynus a chynnig canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pawb ynghlwm.

Arwahanrwydd cymdeithasol yw pan mae pobl yn ei chael yn anodd cwrdd â phobl eraill. Gall hyn fod oherwydd ble maent yn byw neu gan eu bod yn ei chael yn anodd mynd allan a chwrdd â phobl, a all gael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, a'u hansawdd bywyd.

Enghreifftiau o'r gwaith hyd yn hyn:

- Fe luniom becynnau Rhwng Cenedlaethol gan ddefnyddio cynnyrch a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae pecynnau hyn hefyd yn debyg i'r cynnyrch a ddefnyddiwyd mewn lleoliadau cyn ysgol ac ysgol iau.

  Mae hyn yn gwneud y cynnyrch yn hygyrch ar gyfer gweithgareddau rhwng cenedlaethau. Mae canolbwynt cryf ar natur a'r tymhorau yn ogystal â gweithgarwch corfforol. Rydym wedi derbyn adborth hynod o gadarnhaol o'r cartrefi a'r meithrinfeydd sydd wedi defnyddio'r pecynnau hyd yn hyn. Gall y gweithgareddau syml hyn fod yn gyfathrebiad ystyrlon ar gyfer rhywun sy'n byw gyda dementia ac sy'n gweld cyfathrebu llafar yn anodd.

- Cafodd Bagiau 'Harry Helps' ar gyfer Ysgolion eu creu cyn y pandemig fel offeryn i gefnogi plant ifanc i gael mynediad i ddysgeidiaeth am ddementia sy'n briodol i'w hoedran. Roedd y llyfr yn cynnwys llyfr oedd yn dweud hanes ŵyr yn helpu ei daid i gofio ei enw trwy weithgareddau hel atgofion. Nid oeddem wedi gallu symud ymlaen gyda hyn yn sgil y cyfnod clo, felly ar hyn o bryd rydym yn ceisio deunyddiau newydd er mwyn darparu pecynnau tebyg i'n holl ysgolion yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu adborth perthnasol ar lwyddiant y pecynnau.

- Mae nifer o ysgolion bellach yn ysgolion sy'n deall dementia h.y. Ysgol Gynradd Gymunedol Holt, Ysgol Gynradd Sant Paul Isycoed, Ysgol y Rofft, Parc Borras ac Ysgol Fictoria.

Enghreifftiau o'r adborth a dderbyniwyd hyd yn hyn:

- "Ni allaf ddiolch digon i chi am eich caredigrwydd bore 'ma, roedd arsylwi'r rhyngweithio rhwng y plant ifanc a'r bobl hŷn yn anhygoel" Rheolwr, Marford Little Explorers.

- "Rwy'n mwynhau gweld y plant yn dod i ymweld, mae'n codi fy ysbryd i heb os nac oni bai" Preswylydd yn Hillbury

- "Nid yw un bachgen bach yn ymgysylltu'n dda gyda phobl, ac roedd ei weld yn siarad gyda'r bobl hŷn yn wych" Cymhorthydd addysgu Bro Alyn

- "Daeth y plant i ymweld a chanu pen-blwydd hapus i mi yn Gymraeg a Saesneg, gwnaeth hynny i mi wenu" Preswylydd yn Hillbury

### Awdurdod Lleol sy'n Gyfeillgar i Awtistiaeth

Rydym yn parhau i ddatblygu grŵp Partneriaeth Strategol Awtistiaeth Wrecsam, a'r grŵp llywio awtistiaeth lleol er mwyn gwella a datblygu ymwybyddiaeth o Awtistiaeth ar draws yr Awdurdod Lleol a Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae is-grŵp (gan gynnwys cyd-gynhyrchu) wedi cael ei sefydlu er mwyn trefnu Cynhadledd Awtistiaeth Wrecsam ar gyfer holl weithwyr proffesiynol ledled Wrecsam a fydd yn eu helpu i ddeall Awtistiaeth, a chynyddu ymwybyddiaeth.

Mae mwy o fodiwlau e-ddysgu wedi cael eu datblygu ar gyfer holl staff, ac o dan ein partneriaeth gyda'r grŵp llywio lleol o 'Dy Le Di', rydym wedi cyflawni hyfforddiant wedi'i gyd-gynhyrchu gyda Datblygu'r Gweithlu CBSW, ar gyfer staff gofal cymdeithasol ac ysgolion/colegau.

Yn ogystal, mae Dy Le Di wedi llwyddo i sicrhau seren pêl-droed Wrecsam, Paul Mullin fel noddwr. Dywedodd Mullin 'Rwy'n falch o gyhoeddi fy mod wedi cytuno i fod yn noddwr elusen awtistiaeth yn Wrecsam, Dy Le Di. Fel y gwyddai rhai ohonoch, cafodd fy mab Albi ddiagnosis ar y sbectrwm yn ddiweddar, felly mae'n achos sy'n agos at galon fy nheulu. Mae Dy Le Di yn nodi deg mlynedd ers sefydlu yn 2023. Rwy'n gobeithio cymryd rhan yn y dathliadau mewn rhyw ffordd.'

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp WASP yn cefnogi adolygiad o God Ymarfer Awtistiaeth, ac yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Cyflawni Statws o Blaid Pobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd - nhw yw asiantaeth y Cenhedloedd Unedig sy'n cysylltu cenhedloedd, partneriaid a phobl er mwyn hyrwyddo iechyd, cadw'r byd yn ddiogel a gwasanaethau'r diamddiffyn – fel y gall bawb, ymhobman fod â'r lefel uchaf o iechyd (WHO)

- Datblygu Strategaeth Awtistiaeth ac adolygu'r Cod Ymarfer er mwyn deall sut y gall elwa ein cymunedau

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cyfrannu at ddatblygu Hwb Lles Wrecsam
- Cyfrannu at a chyflwyno'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Datblygiad llawn y tîm cyn-geni
- Datblygiad llawn y prosiect NEET i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

### Dyma beth wnaethom ni

#### Cyflwyno'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Yn dilyn lansiad y Fframwaith Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn 2022, mae'r Strategaeth Atal a Chymorth Cynnar bellach wedi cael ei chymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Mae'r strategaeth yn cynnwys 5 blaenoriaeth, sef:

1. Bod pob plentyn, unigolyn ifanc a'u teuluoedd yn mwynhau lles ac iechyd meddwl ac emosiynol da.
2. Bod pob baban, plentyn ac unigolyn ifanc yn gallu cyfathrebu'n effeithiol.
3. Bod pob plentyn, unigolyn ifanc a'u teuluoedd yn mwynhau perthnasoedd iach a chadarnhaol.
4. Bod gan bob plentyn, unigolyn ifanc a'u teuluoedd fynediad at safon byw dda.
5. Bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn ymgysylltu'n dda gydag addysg ac yn cyrraedd eu llawn botensial.

Bydd y Bartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar yn monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Mae'r Porth Lles, sydd wedi bod yn brosiect mawr o dan y Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar, bellach yn cael ei gyflwyno a bydd y strategaeth a'r porth yn cael eu lansio'n ffurfiol yn Hydref 2023.

#### Datblygu'r Tîm Cyn-Geni

Mae Gofal Cymdeithasol i Blant Wrecsam wedi rhoi trefniadau effeithiol mewn lle trwy ychwanegu Tîm Cyn-Geni. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau fod asesiadau dynodedig a chydlyniant o ran cefnogaeth mewn lle cyn gynted â phosibl ar gyfer teuluoedd a mamau sy'n disgwyl ac yn dod i'n sylw.

Ar hyn o bryd mae'r Adran yn cyflawni adolygiad llawn o'r cynnig cyn-geni o fewn y gwasanaethau plant ac yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i wella cyfathrebu ac arferion.

Un enghraifft o'r gwaith partneriaeth yw sefydlu Cyfarfodydd Cyswllt Cyn-Geni - gan rannu gwybodaeth, cyfathrebu a gweithio cydlynol rhwng gofal cymdeithasol, bydwragedd a Diogelu PBC.

Pwrpas y cyfarfodydd Cyswllt Cyn-Geni yw olrhain unigolion a theuluoedd sy'n agored i Dîm Asesu Cyn-Geni yr Awdurdod Lleol ac i sicrhau fod cymorth priodol yn cael ei gynnig.

### Datblygu NEET

Mae'r Adran yn parhau i weld mwy o bobl ifanc sydd wedi profi gofal, yn cymryd mantais o bolisi "ailgysylltu â gofal" gyda llwybrau yn ôl i Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant hyd at 25 oed.

Ble nad yw rhai sy'n gadael gofal yn dymuno manteisio ar hyn, rhoddir manylion sut i ailgysylltu i bawb sy'n gadael gofal cyn eu cyfweliad gadael.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Cynnydd i'r cam nesaf o ddatblygu'r Hwb Lles, gan gynnwys cyfranogiad y trydydd sector, agor y caffi ac adolygu'r oriau agor
- Adolygiad llawn o'r cynnig cyn-geni yn y Gwasanaethau Plant
- Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phlant nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd

## Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae'r safon hon yn helpu pobl i gyflawni perthnasoedd iach yn y cartref a gyda'r bobl y maen nhw'n agos atyn nhw.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cyflogi Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl i gyd-gynhyrchu atebion i fylchau mewn gwasanaethau a adroddir i ni a'n partneriaid, i gynnwys cynyddu'r ystod o ddewisiadau seibiant.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Cyflogi Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl

Bellach rydym wedi cyflogi Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl i gyd-gynhyrchu atebion i fylchau mewn gwasanaethau a adroddir i ni. Ariennir y swydd hon drwy Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac mae'n cefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed. Nod y swydd yw darparu adnodd dynodedig i roi gwell gwasanaeth yn y maes.

Comisiynodd CBSW Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) i ddarparu gwasanaeth seibiant (sydd bellach wedi ennill gwobrau) o'r enw Pontio'r Bwlch. Mae Pontio'r Bwlch yn gynllun seibiant sy'n darparu cyfnodau byr o seibiant ar gyfer gofalwyr di-dâl o'u rôl gofalu. Mae'n rhoi llais, dewis a rheolaeth i'r gofalwr dros y math o seibiant maent eisiau, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth ystyrlon sy'n bodloni eu hanghenion unigol. Mae 556 o ofalwyr wedi cael mynediad i'r gwasanaeth yn y 2 flynedd ddiwethaf.

Rydym hefyd wedi comisiynu GOGDdC i ddarparu cynllun Taliadau Uniongyrchol Gofalwyr Di-dâl er mwyn galluogi gofalwyr i gael mynediad at egwyl seibiant. Cyfanswm yr egwyl seibiant a ddarparodd GOGDdC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd 306.

Dyma rai adborth:

"Cafodd fy ngwraig ddiagnosis Alzheimer's dros 3 mlynedd yn ôl. Ar ôl ei diagnosis, roeddem yn teimlo ein bod wedi cael ei gadael ac ar ein pen ein hunain, ac yn poeni y byddem ond yn derbyn cymorth "ar y diwedd". Yn ystod Covid dechreuodd fy ngwraig ddirywio, ac roeddwn yn ei chael yn anodd ymdopi gyda'r newidiadau a bod mor unig (heb fynediad at fy nghymorth arferol). Yn ystod y cyfnod hwn dechreuais agor allan i fy merch gan ddweud fy mod yn ei chael yn anodd. Siaradodd fy merch gyda ffrind i'r teulu am fy ngwraig a (thrwy lwc) cafodd atgyfeiriad i GOGDdC a chysylltodd. Ers yr alwad ffôn gyntaf mae ein byd wedi newid Mae Louise wedi bod yn angel.

Mae hi wedi ein cyfeirio ni ymhellach at nifer o sefydliadau gan gynnwys y Gymdeithas Alzheimer's ac rydym wedi sefydlu Artwneiaeth Arhosol sy'n rhoi hyder i mi ar gyfer ein dyfodol. Un o'r gweithredoedd o garedigrwydd mwyaf rhyfeddol gan Louise oedd pan wnaeth gais am gyllid ar gyfer ein gwyliau/seibiant lle aeth fy ngwraig a fi i ffwrdd am wythnos gyda'n merch a ŵyr. Roedd yr wythnos yn un arbennig iawn, gwnaethom atgofion gwerthfawr, tynnu llawer o luniau a chwerthin mwy mewn wythnos na wnaethom ni drwy gydol Covid. Mae gwybod fod sefydliadau megis GOGDdC a phobl anhygoel fel Louise allan yno i'n cefnogi ni a'n harwain ni, yn gwneud y dyfodol ychydig yn llai brawychus. Hoffwn ddiolch i chi am hyn".

Mae Cyngor Wrecsam wedi gweithio gyda GOGDdC i hwyluso'r cynllun mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae canolbwyntio ar beth mae gofalwyr yn ei weld fel egwyl neu gymorth ar gyfer eu lles eu hunain a'r adborth yn adlewyrchu pa mor werthfawr yw hyn i ofalwyr. Mae'r taliadau uniongyrchol wedi galluogi mynediad at nifer o weithgareddau wedi'u dewis gan ofalwyr a'u teuluoedd.

Adborth ac enghreifftiau

- Gofalwyr Di-dâl A

  "Diolch yn fawr iawn i bawb am fy nhaleb ar gyfer peiriant golchi dillad, rwyf wedi cael gwneud fy ngwallt gyda'r arian a roddoch i mi i roi egwyl i mi fy hun .... gyda'r gweddill rwy'n gobeithio mynd am ginio....diolch yn fawr.

- Gofalwyr Di-dâl B

  Diolch eto am eich cymorth. Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr. Cawsom 2 ddiwrnod ymlaciol iawn. Roedd yn werthfawr iawn gan nad ydym wedi cael llawer o amser i ni'n hunain. Fe wnaethom fwynhau ein hunain yn fawr. Cerddom ar hyd y gamlas a gwneud beth oeddem NI eisiau ei wneud.

- "Bydd yn helpu i dalu am wythnos i ffwrdd yn Norfolk gyda fy nheulu yn aros mewn bwthyn ar fferm. Dylai'r egwyl hwn i ffwrdd o fy rôl gofalu fy helpu i ymlacio a chynnal fy lles fy hun a pharhau i ddarparu gofal yn ogystal â chadw fy swydd llawn amser."

- "Mae'r 'myhomehelper' yn golygu y gallaf alw fy rhieni ar fideo heb ryngweithio gyda nhw er mwyn gweld os ydyn nhw'n iawn o fy ffôn clyfar - bydd hyn yn rhoi llai o straen ar fy rôl gofalu ac yn golygu nad oes angen i mi frysio heibio bob tro rwy'n poeni amdanynt, a gallaf gael cipolwg arnynt. Bydd yn golygu y gallaf roi mwy o fy amser i gefnogi fy ngŵr sy'n adfer o waeledd nerfol".

- "Gallaf ychwanegu nodiadau atgoffa ar gyfer fy rhieni (fel nodiadau testun i Dad sy'n fyddar a nodiadau llafar i Mam sydd â dementia a hefyd uwchlwytho lluniau a'i ddefnyddio fel cloc dementia".

Enghreifftiau o'r ffordd mae'r cynllun Pontio'r Bwlch wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni'r canlyniadau dymunol:

- Gofalwyr yn treulio amser gyda theulu a ffrindiau
- Gofalwyr yn cael egwyl ystyrlon i ffwrdd o'u rôl gofalu
- Mae gofalwyr yn tynnu ar eu cryfderau ac adnoddau, gan ddefnyddio Pontio'r Bwlch i gynllunio egwyl
- Mae gofalwyr yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw (aelodaeth golff/ gwyliau/dosbarthiadau ioga/teithiau/digwyddiadau wedi'u trefnu)
- Mae gofalwyr/rhai sy'n derbyn gofal yn ymgysylltu mewn gweithgareddau hamdden gan roi amser allan a lles
- Y cyfle i archwilio adnoddau cymunedol - mae GOGDdC ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Byd Dŵr/Castell y Waun
- Mynychu pethau sy'n bwysig i'r gofalwr (priodasau/penblwyddi/digwyddiadau arbennig)
- Mae gofalwyr yn teimlo'n rhan o'u cymuned (ymuno â grwpiau/rhoi'n ôl/ gwirfoddoli)

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Datblygu cynnig mwy cadarn i Ofalwyr Di-dâl gan gynnwys manylion gwasanaeth a chontract newydd
- Datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn galluogi i ofalwyr di-dâl adnabod eu hunain a cheisio ymyrraeth
- Cynyddu nifer yr Asesiadau Gofalwyr Di-dâl
- Gweithio gyda chyflogwyr yn Wrecsam i ddatblygu cymorth ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl

# Gofal Cymdeithasol i Blant

## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Parhau â gwelliannau yn y drws ffrynt i gefnogi gyda chynnwys gweithiwr uned diogelwch cam-drin domestig yn rhan o'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad.
- Parhau i gefnogi perthnasoedd domestig iach gan ychwanegu gweithiwr iechyd meddwl a swyddog tai yn yr Un Pwynt Mynediad.

## Dyma beth wnaethom ni

### Gweithiwr Uned Diogelwch Cam-Drin Domestig yn rhan o'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad

Gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Uned Diogelwch Cam-Drin Domestig (DASU), roedd Un Pwynt Mynediad Plant yn gallu rhoi gweithiwr DASU i'r tîm i gynorthwyo gyda sgrinio ac ymyrraeth gynnar ar gyfer y contractau hynny sy'n briodol.

Mae'r adran yn dymuno ehangu ar y datblygiad hwn wrth i ni weithio tuag at adolygu ein Polisi Cam-drin Domestig ac adolygu ein dogfennau ac offer asesu.

Bydd lleihau'r defnydd o iaith sy'n beio'r dioddefwr a chomisiynu mwy o raglenni cyflawnwyr er mwyn cefnogi'r dioddefwyr a'r cyflawnwyr, yn nod i ni.

### Gweithiwr Iechyd Meddwl a Swyddog Tai yn yr Un Pwynt Mynediad

Mae Un Pwynt Mynediad Plant bellach â'r fantais ychwanegol o Weithiwr Cymdeithasol Iechyd Meddwl a Gweithiwr Cymorth Tai sy'n arwain ar unrhyw gontractau/atgyfeiriadau sydd angen cymorth yn y maes hwn. Mae cynnwys hyn yn y cynnig Un Pwynt Mynediad wedi sicrhau cysondeb o ran dull pan fo angen camau gweithredu mewn ymateb i'r atgyfeiriadau hyn, ac wedi helpu i adeiladu perthnasau rhwng tai, iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn y pen draw, wedi cynorthwyo i roi ymateb mwy amserol i'r atgyfeiriadau hyn, gyda chyngor arbenigol ar y safle.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Adolygu polisi a dull ar gyfer Cam-drin Domestig a lleihau'r defnydd o iaith sy'n beio'r dioddefwr
- Cynyddu comisiynu rhaglenni cyflawnwyr cam-drin domestig
- Gwneud gwelliannau i Un Pwynt Mynediad gan gynnwys cyfranogiad Heddlu Gogledd Cymru

## Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Mae hyn yn golygu helpu pobl i wella eu hincwm. Yn ogystal â'u helpu i elwa o fywyd cymdeithasol a lle addas i fyw.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Ymchwil i barhau i fodelau amgen o ddarparu ar gyfer cyfleoedd gwaith a gwasanaeth dydd i allu ehangu gwasanaethau sydd ar gael.
- Darparu Rhaglen Gofal Agosach at Adref ehangach.

#### Dyma beth wnaethom ni

##### Modelau Amgen ar gyfer Cyfleoedd Gwaith a Dydd

Yn ystod y flwyddyn hon cwblhawyd adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth dydd a gomisiynwyd ar draws Wrecsam i ddarparu darlun cyfredol i'r model gwasanaeth presennol.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer dinasyddion hŷn a dinasyddion gydag anableddau ac mae adroddiad o'r canfyddiadau wedi cael ei baratoi. Yn draddodiadol mae gwasanaethau dydd mewn adeiladau ac o dan gontract i ddarparu ystod o wasanaethau gan gynnwys:

- Gofal personol a/neu ymarferol i'r rhai sy'n ei chael yn anodd cael mynediad at eu cymuned yn annibynnol
- Hyfforddiant a datblygu sgiliau i gefnogi annibyniaeth
- Hyfforddiant a chymorth yn y gwaith er mwyn galluogi pobl i symud i gyflogaeth wedi'i gefnogi neu agored
- Cydlynu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden
- Darparu lle cyfarfod i adeiladu perthnasau tu hwnt i'r rhai gyda gofalwyr a staff, gan leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd
- Gweithgareddau ysgogol wedi'u cefnogi ar gyfer pobl gyda nifer o anableddau dwys

Roedd yr adolygiad wedi nodi nifer cynyddol o bobl gyda lefel uchel o angen, yn arbennig y rhai sy'n byw gyda dementia, yn mynychu gwasanaethau dydd, ac felly, mae'n debygol y bydd darpariaeth arbenigol mewn adeilad ar gyfer rhai pobl yn parhau i fod yn ganlyniad da. Rydym eisiau gallu cyd-ddarparu mwy o hyblygrwydd i bobl er mwyn gwella mynediad i ddatrysiadau cymunedol ar gyfer y rhai gydag anghenion is, wrth alluogi gwasanaethau presennol i fodloni anghenion cynyddol rhai dinasyddion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam eisiau ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid yn fewnol ac yn allanol er mwyn canfod anghenion , gofynion a chyfleoedd datblygu posibl ar gyfer dyfodol gwasanaethau o fewn Cyfleoedd Gwaith a Dydd a'r gwasanaethau seibiant mewnol sydd ar gael. Canlyniad yr ymgysylltiad hwn fydd datblygu arfarniad dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys cynllun gweithredu.

## Ehangu'r Prosiect Gofal Agosach at Adref

Trwy gyflwyno'r Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru a Chronfa Ailgydbwyso Gofal Integredig, rydym wedi gallu parhau i dyfu ein Rhaglen Gofal Agosach at Adref i:

- Cefnogi byw'n annibynnol yn y gymuned ar gyfer pobl gydag anghenion gofal a chymorth
- Darparu lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned fel y gall pobl sydd angen gofal, cefnogaeth ac adferiad, ddychwelyd i fyw'n annibynnol neu gynnal eu hannibyniaeth bresennol yn Wrecsam.
- Sicrhau fod anghenion llety a gofal grwpiau diamddiffyn yn cael eu diwallu mor agos i gartref â phosibl.

Mae'r rhaglen wedi'i ddylunio i fodloni'r meysydd blaenoriaeth canlynol yn Wrecsam:

- Prynu ac addasu eiddo i alluogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth i blant ac oedolion yn agosach at adref, er mwyn diwallu anghenion dinasyddion Wrecsam a lleihau'r angen am leoliadau tu allan i'r ardal leol.
- Ehangu'r ddarpariaeth o ofal seibiant i Blant ac Oedolion trwy fuddsoddiad cyfalaf er mwyn cynyddu nifer y gwelyau yn ein heiddo seibiant presennol a/neu addasu lle bynnag bosibl i fodloni anghenion mwy cymhleth.
- Bydd y prosiect yn ymgynghori, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gyda phartneriaid a'r Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu prosiectau gofal sylfaenol a chanolraddol, integredig.

Ers dechrau'r rhaglen, rydym wedi gweld gwaith yn datblygu'n gyflym gyda chwblhad 2 ddatblygiad cartref plant newydd yn 2022 - 2023. Rydym hefyd wedi ehangu ein gwasanaethau seibiant i blant, ar ôl cwblhau gwasanaeth seibiant bychan 3 person.

Mae hyn yn ein galluogi ni i barhau i ddarparu gwasanaeth seibiant i blant, hyblygrwydd i fodloni anghenion y teuluoedd hynny sy’n dibynnu ar y gwasanaeth.

Ym Mawrth 2023, cwblhaom bryniant eiddo arall er mwyn parhau i weithio ac ehangu ein cynnig i blant sydd ar hyn o bryd wedi’u lleoli tu allan i’r sir.

Mae gwaith hefyd wedi parhau gyda’n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae’r Gronfa Tai â Gofal wedi ein galluogi ni i ehangu ein cynlluniau stoc tai byw’n annibynnol ar gyfer oedolion gydag Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu cymhleth, gan gynyddu tri chynllun newydd gyda 7 o ofodau gwely ychwanegol, a dros y 2 flynedd nesaf cynyddu gyda phum cynllun ychwanegol gan arwain at 14 o ofodau gwely ychwanegol.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Archwilio modelau amgen o ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd gwaith a gwasanaeth dydd er mwyn galluogi mwy o annibyniaeth ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu
- Adolygu’r model Broceriaeth er mwyn ehangu swyddogaethau broceriaeth i sicrhau comisiynu lleoliadau yn effeithiol ac effeithlon; gan wneud gwell defnydd o’n hadnoddau a rhoi mwy o ddewis i bobl Wrecsam.
- Peilota Ap Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn y Gwasanaeth Byw yn y Gymuned ac i gefnogi dinasyddion yn well, cynyddu ymatebolrwydd a hygyrchedd cynlluniau cefnogi
- Cydweithio rhwng y gwasanaethau ail-alluogi ac atal er mwyn cryfhau ac uno darpariaeth gwasanaeth ar gyfer ein dinasyddion

### Esbonio'r Jargon - 'Broceriaeth'

> Mae broceriaeth am gaffael ystod o ddewisiadau cefnogi addas sy’n diwallu anghenion y cleient ac yn galluogi i’r ddarpariaeth fwyaf addas gael ei wneud.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cwblhau'r Prosiect Kickstart
- Cynyddu ein darpariaeth seibiant
- Cefnogi a chynorthwyo datblygiad Gorsaf Achub Glowyr ar gyfer y sawl sy'n Gadael Gofal

### Dyma beth wnaethom ni

#### Cwblhau'r Prosiect Kickstart

Mae'r prosiect Kickstart yn cynnwys darpariaeth o hyd at 14 o leoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc 16+ oed gydag anghenion cymhleth. Mae'r prosiect wedi cael ei hwyluso gan Grŵp Llywio, sy'n cwrdd yn rheolaidd i adolygu terfynau amser prosiect a chamau uniongyrchol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu ac yn bodloni ei amcanion.

Er bod ychydig o oedi dechreuol yn sgil ffactorau adeiladu tu hwnt i'n rheolaeth, mae'r prosiect wedi ei gwblhau ac wedi trosglwyddo:

- 1 x eiddo 4 ystafell wely - eisoes wedi'i feddiannu
- 2 x fflat 1 ystafell wely - eisoes wedi'i feddiannu
- 4 x eiddo 2 ystafell wely - 1 eisoes wedi'i feddiannu 3 x yn barod i'w meddiannu

Mae proses atgyfeirio cadarn yn cyd-fynd â chynllunio a throsglwyddo pobl ifanc i'r eiddo hyn ac mae wedi profi i fod yn ychwanegiad gwerthfawr i'r lleoliadau mae Gwasanaethau Plant yn gallu cynnig i gefnogi plant a phobl ifanc.

#### Cynyddu Darpariaeth Seibiant

Eleni, datblygodd a lansiodd y Panel Rhianta Corfforaethol eu Is-Grŵp Llety, gyda'r nod o:

- Ganfod llety addas a darparu cymorth penodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal 16 oed neu hŷn yn y Fwrdeistref Sirol;
- Cytuno a gweithredu Llwybr Gadael Gofal;
- Sicrhau llety mwy a mwy priodol ar gyfer y rhai sy'n barod i faethu plant ac ar gyfer plant gydag anableddau; a
- Chynorthwyo teuluoedd diamddiffyn lle nad ellir bodloni eu hanghenion tai presennol gan fod rhwystrau sylweddol megis ôl-ddyledion rhent, ac ati, sy'n atal eu hailgartrefu

Roedd hyn mewn partneriaeth rhwng yr Adran Dai a Gwasanaethau Plant.

Er mai cylch gwaith yr is-grŵp hwn oedd datblygu a gweithredu datrysiadau i fynd i'r afael â'r materion uchod, cytunwyd mai'r flaenoriaeth gyntaf oedd caffael llety ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal 16 oed a hŷn.

### Datblygu Gorsaf Achub Glowyr ar gyfer y sawl sy'n Gadael Gofal

Mae ein Cynnig Ymadawyr Gofal wedi'i ddatblygu drwy'r flwyddyn ac rydym yn y broses o ddatblygu ein llwybr llety ar gyfer pobl ifanc, fydd yn darparu graddau amrywiol o gefnogaeth ar eu llwybr i annibyniaeth a'u tenantiaeth eu hunain. Rydym yn gobeithio cyflawni hyn drwy barhau i ddatblygu ein Gwasanaeth Llety â Chymorth mewnol, Prosiect Kick Start, Prosiect Camu i Lawr, Pan Rwy'n Barod a defnyddio ein Fflat Hyfforddiant. Mae'r Tîm Gadael Gofal yn gweld mwy sy'n gadael gofal yn manteisio ar y polisi 'ailgysylltu â gofal' gyda llwybrau yn ôl i addysg neu gyflogaeth hyd at 25 oed. Ble nad yw rhai sy'n gadael gofal yn dymuno manteisio ar hyn, rhoddir manylion sut i ailgysylltu i bawb sy'n gadael gofal cyn eu cyfweliad gadael.

Yn 2022-23 rydym yn bwriadu parhau gyda datblygiad ein Cynnig i'r Sawl sy'n Gadael Gofal gan gynnig ILM Lefel 2 mewn Arweinyddiaeth i 10 o bobl ifanc sydd wedi cael profiad gofal 18+ drwy'r Prosiect Ymchwil Fuse yn dechrau ym mis Mehefin a'r Peilot Incwm Sylfaenol, fydd yn cael ei lansio yn yr haf.

### Mwy o gydnabyddiaeth i Ofalwyr Maeth a Gwesteiwyr Llety â Chefnogaeth

Yn 2022, cytunodd pwyllgor gwaith y cyngor i gynyddu'r lwfans a delir i Ofalwyr Maeth a Gwesteiwyr Llety â Chefnogaeth Awdurdod Lleol. Mae'r cynnydd hwn wedi'i fwriadu i gydnabod rôl werthfawr sydd gan y gofalwyr a'r gwesteiwyr hyn ym mywydau pobl ifanc ac i ddenu mwy o ddinasyddion i ystyried bod yn ofalwyr maeth a gwesteiwyr yn Wrecsam.

Cytunwyd i gynyddu cyfradd wythnosol Wrecsam yn flynyddol yn unol â'r cynnydd yn y ganran (Canran (%)) wnaeth Llywodraeth Cymru ei argymell ar gyfer yr isafswm lwfans wythnosol cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Maeth a gwesteiwyr Llety â Chefnogaeth. Hefyd, rhoddwyd cytundeb ar gyfer buddsoddiad pellach i gynyddu'r lwfans graddfa sylfaenol i ofalwyr maeth a diwygio'r band oed ar gyfer y gyfradd sylfaenol a chyfraddau lwfans proffesiynol o 1 Chwefror 2023.

Hefyd, cytunwyd i gynyddu'r gyfradd wythnosol bresennol ar gyfer Gwesteiwyr Llety â Chefnogaeth 80% ar 1 Ionawr 2023 sydd heb ei gynyddu ers 2013 i ganiatau ar gyfer chwyddiant ac yn unol â thaliadau Gofalwyr Maeth.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2023-24

- Adolygu'r defnydd o Gyfarfodydd Grŵp Teulu i edrych ar anghenion llety amgen er mwyn i blant a theuluoedd sy'n cefnogi i aros gyda'i gilydd gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol lleol.
- Datblygiad pellach o' prosiect Gofal Agosach at Adref
- Adolygu a gwella llwybrau ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain
- Datblygu a diffinio model darpariaeth ar gyfer ein gwasanaeth plant i gynnwys ymarfer a hysbysir gan drawma

# 5. Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion

## A. Datblygu ein gweithlu

Mae ein tîm datblygu'r gweithlu'n dal i ddarparu amrywiaeth helaeth o sesiynau hyfforddiant ar-lein, modiwlau e-ddysgu a hyfforddiant wyneb yn wyneb yn y sector gofal cymdeithasol. Mae cais rhanbarthol am grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2022-23 wedi'i gyflwyno ac mae ein cynllun lleol wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae dyraniad grant Wrecsam (sy'n cynnwys 30% o arian cyfatebol) yr un fath â'r llynedd £472,012.

Mae hyfforddiant a chymwysterau ar gael i'r bartneriaeth datblygu gweithlu gofal cymdeithasol, gyda'r aelodaeth wedi eu manylu yn ein cynllun cyfathrebu.

Fel rhan o nod yr adran i dyfu ei weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ei hun a manteisio ar weithwyr dawnus ac ymrwymedig sydd eisoes yn gweithio ar gyfer y cyngor, mae Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i noddi hyd at wyth o weithwyr i astudio Gradd BA mewn Gwaith Cymdeithasol yn flynyddol. Eleni (2022-23) roedd chwe gweithiwr yn llwyddiannus gyda'u cais gan ddechrau eu gradd. Ar hyn o bryd rydym yn prosesu ceisiadau ar gyfer cohort 2023/24. Mae'r cwrs Gweithiwr Cymdeithasol yn gwrs tair blynedd o ddysgu llawn amser, o bell trwy'r Brifysgol Agored.

Rydym hefyd wedi cynnig cyfle i dri gweithiwr astudio Gradd BA mewn Therapi Galwedigaethol gyda sicrwydd swydd fel Gweithiwr Cymdeithasol neu Therapydd Galwedigaethol ar y diwedd. Mae'r cwrs Therapi Galwedigaethol yn gwrs pedair blynedd rhan amser ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Eleni rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant Deddf Galluedd Meddylion sylweddol i baratoi ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Mae hyfforddiant Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer darparwyr a bydd hynny'n parhau yn 2023/2024, yn ogystal ag ymarfer a hysbysir gan drawma.

Mae mwy o wybodaeth am flaenoriaethau hyfforddiant a chymwysterau rhanbarthol a lleol, ymarfer effeithiol sy'n codi a mentrau hyfforddi ar gael ar ein gwefan.

## B. Cyllid a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Ers y flwyddyn ariannol 2018/19, cyflawnodd gofal cymdeithasol i oedolion £4.2miliwn o arbedion a chyflawnodd gofal cymdeithasol plant £225k o arbedion. Yn 2020/21 roedd £2.5miliwn pellach wedi'i ddyrannu i Gyllideb gofal Cymdeithasol, yn dilyn £3.5miliwn pellach yn 2021-22 ar gyfer gwasanaethau plant i ddelio gyda'r cynnydd sylweddol mewn darpariaeth arbenigol.

Parhaodd y pwysau yng Ngofal Cymdeithasol i Blant yn 2022-23 gyda £5miliwn arall wedi'i ddyrannu i'r gyllideb Gofal Cymdeithasol i Blant yn sgil y galw ar y gwasanaeth a'r cynnydd yn niferoedd y bobl ifanc mae'n ei gefnogi, ynghyd â'r angen parhaus am staff asiantaeth yn sgil anawsterau dod o hyd i staff parhaol addas i'w penodi. Yn ogystal â hynny, cafodd £2.4miliwn pellach ei ddyrannu i gyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn 2022-23 er mwyn diwallu costau ychwanegol o gyflwyno Cyflog Byw Gwirioneddol o weithwyr gofal fel y nodwyd gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â chynnydd mewn darpariaeth ar gyfer cynnydd mewn costau cartrefi preswyl a nyrsio.

Disgwylir i'r pwysau sylfaenol hwn yn parhau i'r tymor canolig ac mae'n cael ei adlewyrchu fel ymrwymiad yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2025/26 gyda £7miliwn ychwanegol wedi'i fuddsoddi yn 2023/24 i ateb y galw am ofal cymdeithasol a phwysau'r gweithlu gydag ymrwymiad pellach o £6.6miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn ar gyfer Gofal Cymdeithasol sef gorwariant o £17 miliwn yn adlewyrchu'r pwysau o ran galw yr ydym yn ei wynebu ar hyn o bryd. Ar gyfer 2023-24 byddwn yn gweithio i ddarparu gwasanaethau o fewn ein cyllideb gyfyngedig.

## C. Arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd gwleidyddol

Ar lefel wleidyddol, cefnogir y cyngor gan grŵp o gynghorwyr ar y bwrdd gweithredol - sy'n cael eu galw'n aelodau arweiniol - sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

Maen nhw'n cael eu cefnogi gan bwyllgorau craffu. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod o dan y Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles.

Ar lefel reoli, mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol (prif swyddog) yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr y cyngor, a chefnogir gan dîm rheoli adrannol. Mae Cynghorwyr ac uwch reolwyr â'r cyfrifoldebau arweiniol hyn yn deall pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol, ac mae polisi'r cyngor yn datgan y byddwn ni'n blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ddiamddiffyn wrth bennu cyllidebau, gwneud arbedion a newid sut rydym ni'n gwneud pethau.

Mae'r Bwrdd Gwelliannau Gofal Cymdeithasol yn cynnwys y ddau aelod arweiniol Gofal Cymdeithasol, y Prif Weithredwr ac Uwch Swyddogion ar draws y Cyngor sy'n gallu cefnogi'r gwaith gwella, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Plant, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Chyllid. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau fis i adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Bwrdd Gwelliannau Gwasanaethau Cymdeithasol gydag adroddiadau yn cael eu darparu i'r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol ac adrodd ar ddiwedd cyfnod i holl aelodau. Mae'r uwch arweinyddiaeth a ddarperir yn wleidyddol a gan swyddogion yn hanfodol fel sail i'r newidiadau cadarnhaol a gyflawnir.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bartner i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae hwn yn fwrdd sy'n cynnwys y 6 awdurdod lleol, bwrdd iechyd a phartneriaid y trydydd sector ar draws y rhanbarth. Maent yn darparu dull cyfun i ddatblygu gwasanaethau a goruchwylio arian rhanbarthol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Lle bynnag bosibl maent yno i edrych am ffyrdd i ddarparu prosiectau a datrysiadau ar ôl-troed Gogledd Cymru.

Er mwyn llywio'r gwaith hwn, rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio Asesiadau Rhanbarthol o Anghenion Poblogaeth, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ac adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn darnau allweddol o waith. Rhaid i'r rhain ddangos ymgysylltiad a chyd-gynhyrchu â dinasyddion. Mae CBSW wedi bod yn rhan o ddarpariaeth y gwaith hwn drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf a gallwch ddod o hyd i ddolenni i'r dogfennau wedi'u cyhoeddi yma:

Mae is-grwpiau rhanbarthol eraill (Wrecsam a Sir y Fflint - Ardal y Dwyrain) mewn lle i fwydo gwybodaeth i waith ledled Gogledd Cymru. Ac yna mae fforymau wedi'u sefydlu n lleol i Wrecsam, yn canolbwyntio ar feysydd megis Dementia a Gofalwyr Di-Dâl, fel bod profiad Gofalwr Di-Dâl yn cael ei glywed ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, Iechyd a phartneriaid trydydd sector.

## Trefniadau diogelu

Mae diogelu yn golygu gwarchod iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw yn rhydd rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n golygu fod pobl a sefydliadau yn cydweithio er mwyn atal a lleihau effeithiau camdriniaeth a chefnogi pobl ddiamddiffyn sy'n cael eu heffeithio.

Rydym hefyd yn sicrhau fod lles plant ac oedolion diamddiffyn yn cael ei hyrwyddo, gan ystyried eu barn, dymuniadau, teimladau a chredoau wrth benderfynu ar gamau gweithredu.

Wedi'i seilio ar egwyddorion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), rydym yn sicrhau fod diogelu yn ganolog i bopeth a wnawn a gwerthfawrogi'r perthnasau a phartneriaethau rydym wedi eu sefydlu gyda'n partneriaid aml-asiantaeth a sefydliadau gwirfoddol.

Mae ein hymrwymiad i ddiogelu wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad mewn hyfforddiant y gweithlu. Mewn partneriaeth gyda'n tîm Datblygu Adnoddau Dynol a Trefniadol, rydym yn sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu drwy'r flwyddyn ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth diogelwch sylfaenol, gwaith amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth a phynciau unigol a dargedwyd ble mae tueddiadau neu batrymau yn codi'n lleol neu'n genedlaethol.

Mae diogelu wedi'i sefydlu i waith dydd i ddydd ein holl dimoedd o'n gwasanaethau ataliol i'r timau hynny sy'n gyfrifol am gyflawni asesiadau tymor hir a gwasanaethau gofal a chymorth sy'n gweithio gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn.

Mae Gofal Cymdeithasol wedi'i gefnogi gan y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd, sy'n dod â nifer o rolau ynghyd i sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer arsylwi, sicrhau ansawdd a herio ar gyfer holl brosesau statudol.

Mae Tîm Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yr Adran yn sicrhau fod oedolion mewn risg yn derbyn cymorth o fewn terfynau amser statudol, bod archwiliadau yn cael eu cydlynu ac yn amserol a bod cynlluniau diogelu mewn lle i ddiogelu oedolion.

Mae cangen Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid y tîm yn gyfrifol am ddiogelu unigolyn nad oes ganddo/ganddi gapasiti i roi caniatâd i gael gofal a thriniaeth er mwyn cadw'n ddiogel rhag niwed.

Fel Adran, rydym yn gwerthfawrogi dysgu a datblygu fel yr allwedd i welliant parhaus, ac yn gweithio'n ddiwyd i greu a chynnal amgylchedd ddysgu ar draws Gofal Cymdeithasol. Caiff hyn ei gefnogi gan fframwaith archwilio blynyddol cadarn, gan ein darparu gyda chyfleoedd rheolaidd i fesur ymarfer a safonau darpariaeth gwasanaeth; diogelu ein pobl fwyaf diamddiffyn, a darparu digon o gyfleoedd ar gyfer hunanwerthuso a herio.

# 6. Rhagor o Wybodaeth

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

Cwynion a Chanmoliaethau'r Cyngor

wrecsam.gov.uk/service/cysylltu

Cynllun y Cyngor

Cynllun cyffredinol sy'n diffinio ble mae'r cyngor yn canolbwyntio ei egni

wrecsam.gov.uk/service/cynllun-y-cyngor-2020-2023

Strwythur y Cyngor

wrecsam.gov.uk/council

Dewis Cymru

dewis.cymru

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Mae'n helpu i sicrhau fod plant ac oedolion diamddiffyn yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

bwrdddiogelugogleddcymru.cymru

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

bgcwrecsam.org

Eich Llais Wrecsam

Gwefan ymgynghori'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus – a ddefnyddir gan y cyngor ar gyfer arolygon ar-lein.

yourvoicewrexham.net

## Adroddiadau a dogfennau'r Cyngor

Polisi Codi Tâl

wrecsam.gov.uk/service/gofal-cymdeithasol-i-oedolion

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad (Hydref 2020)

arolygiaethgofal.cymru

Adrodd ar wasanaethau gofal rheoledig yn Wrecsam

arolygiaethgofal.cymru/service-directory

Tudalennau gwe Cludiant

wrecsam.gov.uk/service/dolenni/dolenni-cludiant

Safonau'r Gymraeg

wrecsam.gov.uk/service/canmoliaeth-chwynion

Cynllun hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu, pamffledyn ac adroddiad canol blwyddyn

wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

Strategaeth Gweithlu Cyngor Wrecsam

wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

Cynllun teithio Wrecsam – Wrecsam Gysylltiedig

wrecsam.gov.uk/services/dogfennau-allweddol-y-cyngor

# 7. Atodiad 1: Fframwaith Mesur Perfformiad

## Safon 1

Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant.

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
|---|---|---|
| AD/002 - Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor a chymorth | 5,302 | Perfformiad cyson.<br>Yr un lefel â 2021-22 |
| CA/002 - Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gymorth | Dim Data | Dim Data |
| CSC/014 - Canran (%) yr asesiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol | 76.78% | Gwelliant cyffredinol o 2021-22<br>(74.71%) |

## Safon 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
|---|---|---|
| AD/032 - Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol | 24 | Ymdrechion wedi'u targedu i wella cofnodi eiriolaeth yn 2023/24 |
| AD/033 - Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol a darparwyd | 17 | Ymdrechion wedi'u targedu i wella cofnodi eiriolaeth yn 2023/24 |
| CSC/0010a - Canran (%) o asesiadau a gwblhawyd ble roedd yna dystiolaeth o'r Cynnig Gweithredol o'r Gymraeg | 99.31% | Perfformiad cyson. Yr un lefel â 2021-22 |
| CSC/034 - Canran (%) o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen | 69.95% | Gwelliant cyffredinol o 2021-22 |

## Safon 3

Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/033 - Canran (%) o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen | 75% | Gwelliant sylweddol o'i gymharu â 2021-22<br>(54.70%) |
| AD/023 - Cyfanswm adroddiadau o amheuaeth o oedolyn mewn perygl ble mae angen gwneud ymholiadau | 900 | Mae Wrecsam yn parhau i berfformio yn rhagorol mewn ymateb i adroddiadau Diogelu Oedolion |
| AD/024 - Cyfanswm nifer o ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad am y gamdriniaeth honedig | 826<br>91.77% | Mae Wrecsam yn parhau i berfformio yn rhagorol mewn ymateb i adroddiadau Diogelu Oedolion |

## Safon 4

Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/054a - Sawl sy'n Gadael Gofal (Categorïau 1, 2 a 4) Canran (%) sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal | 57.14% | Ychydig o ostyngiad o'i gymharu â 2021-22<br>(66.67%) |
| AD/010 - Canran (%) o becynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn wnaeth leihau, cynnal neu leddfu'r angen am gefnogaeth | Dim Data | Dim Data |

## Safon 5

Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/038 - 100% o blant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad. | Dim Data | Dim Data |
| CSC/042 - Canran (%) o asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd | Dim Data | Dim Data |
| CSC/052 - Canran (%) o Bobl Ifanc oedd angen a dyrannwyd ymgynghorydd personol iddynt | Dim Data | Dim Data |

## Safon 6

Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2022-23 | Sylw |
| --- | --- | --- |
| CSC/055 - Canran (%) y bobl ifanc sy'n gadael gofal a symudodd i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod.' | Dim Data | Dim Data |
| AD/015a - Canran (%) o wasanaethau Gofal Preswyl wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn | Dim Data | Dim Data |
| AD/015b - Canran (%) o wasanaethau Gofal Cartref wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn | Dim Data | Dim Data |